

Adolygiad Gofal Llygaid – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Blwyddyn archwilio: 2024

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Cynnwys

Crynodeb	
Am yr adroddiad hwn	4
Negeseuon allweddol	5
Argymhellion	6
Adroddiad manwl	
Gweithio mewn partneriaeth ranbarthol	9
Cynlluniau gwasanaethau gofal llygaid y Bwrdd Iechyd	11
Trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu	14
Perfformiad offthalmoleg	16
Rheoli'r risg o niwed	20
Atodiadau	
Atodiad 1 – Dulliau archwilio	22
Atodiad 2 – Meini prawf archwilio	24
Atodiad 3 – ymateb y rheolwyr	28

Crynodeb

Am yr adroddiad hwn

- 1 Mae gwasanaethau gofal llygaid yn dod yn bwysicach wrth i boblogaeth y DU heneiddio. Mae poblogaeth sy'n heneiddio yn golygu bod mwy o achosion o gyflyrau llygaid sy'n gysylltiedig ag oedran, megis cataractau, dirywiad maciwlaid cysylltiedig ag oedran, a glawcoma. Yn aml, mae llawer ohonynt, os cânt eu dal yn gynnar, yn gallu cael eu rheoli'n effeithiol â thriniaethau a meddyginiaethau presennol. Ond gall oedi hefyd arwain at fwy o risg o niwed a cholli golwg sy'n anwrthdroadwy. O ganlyniad i'r risg uwch o niwed, yn 2019 cyflwynodd GIG Cymru y 'Mesur Gofal Llygaid', sef dull o flaenoriaethu a mesur amseroedd aros ar sail cyflwr clinigol a risg o niwed. Mae arosiadau offthalmoleg hefyd yn parhau i gael eu cofnodi a'u hadrodd yn rhan o fetrigau ehangach yr amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth.
- 2 Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru – Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol. Mae'r cynllun yn rhagweld twf hirdymor yn nifer yr achosion o gyflyrau llygaid mawr dros yr 20 mlynedd nesaf, gan gynnwys:
 - cynnydd o 47% yn nifer y bobl sydd â dirywiad maciwlaid cysylltiedig ag oedran
 - cynnydd o 50% yn nifer y bobl sydd â chataractau
 - cynnydd o 44% yn nifer y bobl sy'n byw gyda glawcoma.
- 3 Ar ddiwedd mis Mai 2025, ledled Cymru, roedd 32,683 o lwybrau cleifion offthalmoleg a oedd wedi aros dros flwyddyn am driniaeth, 1,730 a oedd wedi aros dros ddwy flynedd, a 20,283 a oedd wedi aros dros flwyddyn am eu hapwyntiad cleifion allanol cyntaf¹. Y tri bwrdd iechyd sydd â'r sefyllfa mwyaf heriol mewn cysylltiad ag arosiadau offthalmoleg yw byrddau iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Caerdydd a'r Fro, a Chwm Taf Morgannwg.
- 4 O ystyried yr heriau hyn, ymrwymodd Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Caerdydd a'r Fro, a Chwm Taf Morgannwg i weithio mewn partneriaeth, gan lansio Strategaeth Offthalmoleg Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru 2022-2025 (y strategaeth ranbarthol). Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yw'r sefydliad arweiniol ar gyfer y rhaglen offthalmoleg rhanbarthol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnwys adolygiad o wasanaethau gofal llygaid yn ei gynlluniau archwilio lleol ar gyfer y tri bwrdd iechyd.
- 5 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau ein gwaith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd). Gwnaethom adolygu cynlluniau lleol a rhanbarthol er mwyn gwella gwasanaethau gofal llygaid, trefniadau arweinyddiaeth er mwyn sbarduno gwelliannau a mynd i'r afael â rhwystrau i gynnydd; ac a yw'r

¹Ffynhonnell ddata: Amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, Llywodraeth Cymru.

Bwrdd Iechyd yn rheoli'n weithredol y niwed sy'n deillio o arosiadau offthalmoleg hir.

- 6 Gwnaed y gwaith er mwyn helpu i gyflawni dyletswydd statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod yn fodlon bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau defnydd effeithlon, effeithiol, a darbodus o'i adnoddau. Cyflawnwyd ein gwaith yn unol â safonau archwilio INTOSAI². Mae **Atodiadau 1 a 2** yn darparu mwy o wybodaeth am ein gwaith.

Negeseuon allweddol

Casgliadau cyffredinol

- 7 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gallu lleihau ei arosiadau offthalmoleg hiraf, nid yw wedi cyflawni targedau adfer gofal arfaethedig Llywodraeth Cymru. Mae'r perfformiad o'i gymharu â'r 'mesur gofal llygaid' yn wael ac, o ganlyniad, mae rhai cleifion yn debygol o brofi niwed y gellir ei osgoi.
- 8 Yng nghyd-destun yr heriau hyn, mae angen cryfhau'r broses o gynllunio gwasanaethau gofal llygaid yn lleol, ehangu'r cwrpas gweithio rhanbarthol, sicrhau cynnydd ychwanegol o ran cynhyrchiant ac effeithlonrwydd, a chryfhau goruchwyliaeth y bwrdd a'r pwyllgorau o'r gwasanaethau offthalmoleg.

Materion allweddol

Gweithio mewn partneriaeth ranbarthol

- Mae cyflawniad y dull gofal llygaid rhanbarthol yn nodi cyfeiriad teithio cadarnhaol. Fodd bynnag, roedd yn araf yn dechrau, ac mae wedi gwyro oddi wrth ei uchelgeisiau gwasanaeth arbenigol gwreiddiol drwy ganolbwyntio ar greu capasiti gwasanaeth tymor byr ar gyfer gweithdrefnau cataract.
- Mae'r dull cataract rhanbarthol yn targedu arosiadau hir, ond nid yw'n gwneud gwahaniaeth sylweddol o ran nifer cyffredinol y cleifion sy'n aros am driniaeth.
- Mae trefniadau llywodraethu i oruchwyllo cyflawniad y strategaeth ranbarthol ar waith, ond oherwydd ei bod yn cynnwys grwpiau lluosog ar draws y tri Bwrdd Iechyd, gall y broses o wneud penderfyniadau ar achosion busnes fod yn araf ac yn feichus.

² Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI)

Cynlluniau gwasanaethau gofal llygaid y Bwrdd Iechyd

- Mae'r dull cynllunio gwasanaethau gofal llygaid lleol presennol yn dameidiog, gydag uchelgeisiau ac amserlenni aneglur, a phwyslais annigonol ar anghenion tymor hwy y gwasanaeth.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau priodol i wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd ei wasanaethau gofal llygaid, ond nid ydynt wedi arwain at welliannau parhaus eto.
- Mae capasiti y gwasanaeth offthalmoleg yn parhau i fod yn bryder; mae swyddi ymgynghorol gwag, ac roedd gostyngiad o 30% yn y gweithlu meddygol offthalmoleg rhwng mis Mawrth 2021 a mis Mawrth 2025.

Arweinyddiaeth a llywodraethu

- Mae arweinyddiaeth gweithredol a chlinigol da sy'n canolbwyntio ar sbarduno gwelliannau tymor byr mewn gwasanaethau gofal llygaid.
- Nid yw'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn goruchwyllo'r gwasanaethau gofal llygaid yn ddigonol. Yn benodol, dylai'r pwyllgor Diogelwch a Chanlyniadau Ansawdd Cleifion gael sicrwydd clir am y niwed a achosir o ganlyniad i oediadau a'r gwersi a ddysgir.
- Nid yw trefniadau rheoli risg yn cwmpasu risgiau gofal llygaid yn ddigonol.

Perfformiad offthalmoleg

- Er bod nifer yr arosiadau rhwng atgyfeirio a thriniaeth offthalmoleg wedi lleihau'n sylweddol yn ystod dwy flynedd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi methu targed Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhai sy'n aros yn hwy na blwyddyn. Ers mis Ebrill 2023, mae rhestrau aros wedi tyfu o oddeutu 19,000 o arosiadau i dros 23,000 o arosiadau.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi methu â chyflawni targed mesur gofal llygaid Llywodraeth Cymru yn gyson. Y perfformiad diweddaraf a adroddwyd yn genedlaethol yw 44.3%, sydd ymhell oddi wrth gyflawni'r targed o 95%.

Rheoli'r risg o niwed

- Er bod prosesau priodol ar waith i flaenoriaethu rhestrau aros offthalmoleg ac i nodi a dysgu oddi wrtho unrhyw niwed a achosir gan oediadau, mae cyfle o hyd i gryfhau'r sicrwydd. Mae rhai cleifion wedi profi niwed, ac nid yw'r broses o adrodd ar lefel y pwyllgorau yn cipio'r digwyddiadau hyn yn gyson nac yn rhoi sicrwydd ar y modd y mae gwersi yn cael eu cymhwyso er mwyn lleihau risg yn y dyfodol.

Argymhellion

- 9 Nodwn argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 1**. Crynhoir ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion yn **Atodiad 3**.

Arddangosyn 1: argymhellion

Argymhellion

Strategaeth offthalmoleg rhanbarthol

- A1 Er mwyn cynyddu cyflymder yr hyn a gyflawnir, dylai partneriaid rhanbarthol gyflymu'r prosesau o wneud penderfyniadau wrth gytuno ar achosion busnes. **(Gweler paragraff 17)**
- A2 Dylai partneriaid rhanbarthol ddatblygu cynllun adnoddau, er mwyn deall yn well yr ymrwymiad gweithredol a chlinigol sydd ei angen gan bob sefydliad partner i gyflawni pob cam o'r strategaeth yn realistig. **(Gweler paragraff 18)**
- A3 Dylai partneriaid rhanbarthol gytuno ar amserlenni sy'n realistig ond yn ddigon uchelgeisiol ar gyfer tri cham Strategaeth Offthalmoleg Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru. **(Gweler paragraff 18)**

Cynllun gwasanaethau gofal llygaid y Bwrdd lechyd

- A4 Dylai'r Bwrdd lechyd gwblhau datblygiad ei gynllun gofal llygaid ar frys, gan geisio mynd i'r afael â heriau presennol a heriau y dyfodol. Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y cynllun:
- yn seiliedig ar y galw am wasanaethau cyfredol a'r hyn a ragwelir yn y dyfodol
 - yn cynnwys cynlluniau capasiti sy'n seiliedig ar lefelau cynhyrchiant sy'n uchelgeisiol ond yn realistig
 - wedi ei brisio, o leiaf, ar gyfer y tymor canolig (tair i bum mlynedd)
 - yn cael ei gefnogi gan gynlluniau adnoddau, hynny yw, ariannol, gweithlu (yn enwedig staffio meddygol) a seilwaith, sy'n adlewyrchu modelau gwasanaeth cynaliadwy
 - yn cael ei gefnogi gan gamau cyflawni clir a cherrig milltir
 - yn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd. **(Gweler paragraff 26)**
- A5 Ar ôl i'r cynllun gofal llygaid gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd, dylai pwyllgor priodol gael yr wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni'r cynllun o leiaf ddwywaith y flwyddyn, gan nodi'n glir unrhyw risgiau i gyflawni. **(Gweler paragraff 38)**

Rheoli risgiau gofal llygaid

- A6 Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu ei gofrestrau risg gweithredol a strategol er mwyn sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal llygaid yn cael eu cipio a'u rheoli'n briodol. **(Gweler paragraff 40)**

Argymhellion

Rheoli'r risg o niwed

- A7 Dylai'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion gael sicrwydd ynghylch:
- sut mae cleifion ar y rhestr aros offthalmoleg yn cael eu rheoli er mwyn atal niwed
 - gwersi a ddysgwyd o adolygiadau gwirioneddol a sut mae gwersi wedi eu cymhwyso er mwyn cryfhau'r trefniadau
 - niwed gwirioneddol a achosir gan oediadau wrth aros am offthalmoleg. **(Gweler paragraff 54)**

Adroddiad manwl

Gweithio mewn partneriaeth ranbarthol

- 10 Gwnaethom ystyried a yw'r strategaeth offthalmoleg ranbarthol yn cefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau offthalmoleg cynaliadwy, ac a oes trefniadau llywodraethu priodol ar waith i gefnogi'r broses o'i rhoi ar waith.
- 11 Canfuom **er ei fod yn mynd rhagddo bellach, fod cyflawniad y dull gofal llygaid ranbarthol yn araf yn dechrau ac yn gwyro oddi wrth ei uchelgeisiau gwasanaeth arbenigol gwreiddiol drwy ganolbwyntio ar greu capasiti gwasanaeth tymor byr.**
- 12 Yn 2022, lansiodd Byrddau Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf Morgannwg, ac Aneurin Bevan y [Strategaeth Offthalmoleg Rhanbarthol 2022-2025](#) (y strategaeth ranbarthol). Mae'n ymateb i faterion allweddol o Pyott Review 2021³, gan gynnwys galw sy'n codi, capasiti arbenigol cyfyngedig, a dibyniaeth ar ddarparwyr o Loegr.
- 13 Mae'r strategaeth yn nodi gweledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau cynaliadwy, o ansawdd uchel. Ei nod yw sefydlu Canolfan Rhagoriaeth Rhanbarthol a darparu gofal llygaid cymhleth yn ranbarthol, gan ddarparu gofal llai cymhleth yn nes at gartrefi y cleifion.
- 14 Mae'r strategaeth ranbarthol yn nodi risgiau clinigol allweddol, gan gynnwys colli golwg o ganlyniad i arosiadau hir, galw sy'n codi, a phrinder gweithlu. Mae'n gosod targedau lefel uchel ar gyfer 2023–2025, gan gynnwys gwasanaethau cataract ac argyfwng estynedig, gwasanaeth fitreoretinol ranbarthol, datblygu gweithlu, a chynlluniau ar gyfer Canolfan Rhagoriaeth Rhanbarthol.
- 15 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yw'r arweinydd ranbarthol ar gyfer y dull partneriaeth newydd, ac mae ei bartneriaid ranbarthol yn cyfranogi ac yn ymgysylltu. Mae'r rhaglen wedi ei rhannu'n dri cham, ac mae cerrig milltir blynyddol, sef:
 - erbyn 2023: Bydd ehangiad ranbarthol mewn capasiti ar gyfer cataractau yn cael ei ddefnyddio'n llawn, bydd Gwasanaeth Fitreoretinol Rhanbarthol yn weithredol, bydd Gofal Argyfwng Llygaid Rhanbarthol a Gofal y Tu Allan i Orlau ar waith (**Cam 1**)
 - erbyn 2024: Bydd Ymchwil, Arloesi a Datblygu wedi eu sefydlu'n dda, bydd Rhaglen Datblygu'r Gweithlu ar waith (**Cam 2**)
 - erbyn 2025: Cytunir ar gyllid rhwydwaith y Canolfan Rhagoriaeth Rhanbarthol (**Cam 3**).
- 16 Er bod y trefniadau llywodraethu i oruchwyllo'r broses o gyflawni strategaeth ranbarthol yn glir, mae risg bod y strwythur yn rhy gymhleth, gan achosi oediadau. Mae Bwrdd y Rhaglen Offthalmoleg Rhanbarthol yn cyfarfod yn fisol ac fe'i cefnogir gan y Grŵp Cyflawni a Datblygu. Mae gan y ddau ohonynt amcanion clir, rheolaeth effeithiol, ac ymgysylltiad clinigol cryf gan bob bwrdd iechyd. Mae Bwrdd y Rhaglen

³ External Review of Eye Care Services in Wales (rcophth.ac.uk) a wnaed gan Andrew Pyott

yn adrodd i'r Bwrdd Goruchwyllo Portffolio Rhanbarthol, sy'n goruchwyllo'r holl raglenni rhanbarthol. Ym mis Ebrill 2025, cyfarwyddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol rhanbarth y de-ddwyrain i sefydlu ymhellach gyd-bwyllgor rhanbarthol yn ystod 2025-26.

- 17 Er bod penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy'r grwpiau llywodraethu sefydledig, maent hefyd yn cael eu gwneud ar wahân gan bob bwrdd iechyd. Er enghraifft, roedd yr achos busnes ar gyfer gwasanaethau cataract rhanbarthol yn gofyn am gymeradwyaeth mewn 10 cyfarfod gwahanol, gan arwain at oedi. Mae creu'r cyd-bwyllgor rhanbarthol yn cyflwyno cyfle i ystyried hefyd sut mae awdurdod dirprwyedig a phrosesau gwneud penderfyniadau yn cael eu symleiddio (**Argymhelliad 1**).
- 18 Nod Cam 1 y strategaeth oedd ehangu gwasanaethau rhanbarthol allweddol erbyn 2023, ond mae'r cynnydd cyffredinol wedi bod yn arafach na'r disgwyl. Roedd y pwyslais ar greu capasiti gwasanaeth cataract rhanbarthol yn bragmatig oherwydd ôl-groniad y rhestr aros, ond yn araf oedd y cynnydd. Mae elfennau eraill o'r strategaeth ranbarthol hefyd wedi eu cyflawni'n arafach, yn enwedig y rhai a nodir yng nghamau 2 a 3 uchod sy'n ymwneud â chanolfan rhagoriaeth ac ymchwil arbenigol. Mae llawer o ffactorau sy'n cyfyngu ar y cynnydd. Mae hyn yn cynnwys y pwyslais ar gynllunio tymor byr sy'n tynnu sylw oddi wrth y blaenoriaethau tymor hwy, a heriau gweithlu gweithredol a chlinigol (**Argymhelliad 2**). Er mwyn helpu i fonitro'r broses o gyflawni'r strategaeth yn well, mae angen adrodd yn gliriach o'i chymharu ag ymrwymïadau gwreiddiol y strategaeth, gan nodi amserlenni cyflawni clir (**Argymhelliad 3**).
- 19 Mae'n amlwg bod y trefniadau rhanbarthol newydd yn creu gweithgaredd gwasanaeth newydd yn ogystal â'r gweithgaredd craidd a ddarperir gan bob Bwrdd Iechyd. Ym mis Gorffennaf 2023, cytunodd Llywodraeth Cymru ar gyllid rheolaidd o £7 miliwn i gyflawni'r Achos Busnes Cataractau Rhanbarthol. O ddechrau araf, yn enwedig oherwydd heriau recriwtio yng nghanolfan gogleddol Nevill Hall, mae lefelau y gweithdrefnau cataract bellach wedi cynyddu (**Arddangosyn 2**).

Arddangosyn 2: Cyflwyno gweithdrefnau cataract sydd wedi eu proffilio a gwirioneddol a hwylusir gan gyllid Llywodraeth Cymru rheolaidd, fesul canolfan cyflawni

Blwyddyn ariannol	Darparwr	Wedi eu Proffilio	Gwirioneddol
2023-24	Canolfan deheuol	2905	2764
	Canolfan gogleddol	39	26
	Ar gontract allanol rhanbarthol	750	676
	Cyfanswm	3694	3466
2024-25	Canolfan deheuol	2049	1930
	Canolfan gogleddol	950	846

Ar gontract allanol rhanbarthol	1308	1308
Cyfanswm	4307	4084

Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

- 20 Er bod dull cataract rhanbarthol yn targedu arosiadau hir, nid yw'n gwneud gwahaniaeth sylweddol o ran nifer cyffredinol y cleifion sy'n aros ledled y rhanbarth. Mae'r cyllid a ddefnyddir ar gyfer gweithio rhanbarthol yn cael ei ddefnyddio i drin cleifion sy'n aros am amser hir am wasanaethau cataract. Fodd bynnag, mae mwy o bobl ar restr aros offthalmoleg rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn awr nag ym mis Mawrth 2023. Ym mis Mawrth 2023, roedd 45,930 o gleifion yn aros ledled y rhanbarth a chynyddodd hyn i 54,977 erbyn 2025. Heb y buddsoddiadau rhanbarthol, byddai'r sefyllfa wedi bod yn waeth, ond nid yw'r trefniadau rhanbarthol yn arwain at lefel lai o arosiadau offthalmoleg yn gyffredinol eto.
- 21 Ym mis Hydref 2024, dyfarnodd Llywodraeth Cymru £7.5 miliwn arall o gyllid afreolaidd i'r rhanbarth er mwyn helpu i leihau'r arosiadau hir, yn enwedig y rhai sy'n aros yn hwy na dwy flynedd. Yn dilyn argymhellion y Grŵp Cyngori Gweinidogol, a chefnogaeth £19.5 miliwn o gyllid afreolaidd, gallai'r rhanbarth gynyddu ei ddefnydd o'r sector annibynnol ymhellach yn ystod 2025-26.
- 22 Er mwyn cefnogi mynediad cyfartal at driniaeth, nid yw'r capasiti rhanbarthol wedi ei ddosbarthu'n gyfartal ar draws y tri bwrdd iechyd. Yn hytrach, mae wedi canolbwyntio ar y cleifion sydd wedi bod yn aros hiraf. Oherwydd nad yw'r gyfran o arosiadau hir iawn yr un fath ar draws y byrddau iechyd, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu mwy o gyllid rhanbarthol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg na'r lleill. Nod y dyraniad wedi ei dargedu hwn yw lleihau rhestrau aros mewn ffordd sy'n hybu tegwch ledled y rhanbarth. Er efallai na fydd hyn yn ymddangos yn 'gyfran deg'. Mae'n adlewyrchu dull ymarferol a theg o fynd i'r afael ag amrywiaeth mewn mynediad ledled y rhanbarth. Mae tîm archebu rhanbarthol yn cefnogi'r dull hwn hefyd, gan helpu i sicrhau mynediad mwy cyson at driniaeth.

Cynlluniau gwasanaethau gofal llygaid y Bwrdd Iechyd

- 23 Er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gofal llygaid amserol mewn lleoliad priodol, ac atal niwed y gellir ei osgoi sy'n anwrthdroadwy, mae'n hanfodol bod gan y Bwrdd Iechyd gynllun clir i wella ei wasanaethau gofal llygaid presennol, cymunedol ac mewn ysbytai, a'i fod yn datblygu model gofal cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Gwnaethom ystyried a oes cynlluniau realistig i wella gwasanaethau gofal llygaid ar lefel leol, gan ystyried:

- a oes gan y Bwrdd lechyd gynllun y cytunwyd arno i wella gwasanaethau gofal llygaid, sy'n cwmpasu gwasanaethau ysbyty a chymunedol, sy'n ceisio mynd i'r afael â heriau cyfredol a thymor hwy
- a yw cynlluniau gofal llygaid y Bwrdd lechyd yn canolbwyntio'n ddigonol ar wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant ei wasanaethau.

24 Canfuom fod **dull cynllunio gofal llygaid lleol y Bwrdd lechyd yn dameidiog a bod diffyg cyfeiriad hirdymor clir, ac er bod camau wedi eu cymryd i wella'r effeithlonrwydd, nid ydynt wedi cyflawni canlyniadau parhaus eto.**

Cynlluniau gofal llygaid lleol

Mae'r dull cynllunio gwasanaethau gofal llygaid lleol presennol yn dameidiog, gydag uchelgeisiau ac amserlenni aneglur, a phwyslais annigonol ar anghenion tymor hwy y gwasanaeth.

- 25 Mae gan y Bwrdd lechyd ddealltwriaeth dda o'r rhwystrau i wella gwasanaethau gofal llygaid. Mae'r rhain yn cynnwys galw cynyddol am wasanaethau, capasiti gweithlu a seilwaith digidol ac ystadau annigonol. Fodd bynnag, nid oes gan y Bwrdd lechyd gynllun gofal llygaid hollgyffredinol i arwain gwelliannau hirdymor i'r gwasanaeth a mynd i'r afael â'r heriau hyn. Yn hytrach, mynegir ei flaenoriaethau gofal llygaid mewn sawl cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys Cynllun Blyneddol y Bwrdd lechyd, y cynllun gwasanaeth offthalmoleg ategol, cynllun gweithredu gofal llygaid sy'n cwmpasu gofal llygaid mewn ysbytai a chymunedol, a chynlluniau â phwyslais megis gweithredu argymhellion Getting it Right First Time (GIRFT) a llwybrau Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS)⁴. Er bod gorgyffyrddiad rhwng y cynlluniau hyn, mae'r dull presennol yn anhrefnus ac yn fyrdymor ei natur. Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod yr angen i ddatblygu un cynllun gofal llygaid ac mae yng nghamau cynnar y broses hon.
- 26 Mae'r Bwrdd lechyd wedi datblygu cynllun gweithredu gofal llygaid yn ddiweddar. Mae'r cynllun gweithredu yn gydnaws â'r Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar gyfer Offthalmoleg a lansiwyd ym mis Hydref 2024, gan adlewyrchu ei themâu strategol⁵. Adroddodd y Bwrdd lechyd ei fod wrthi'n datblygu dull o gyflawni ei gynllun gweithredu. I ddechrau, bydd yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth, a bydd grwpiau gorchwyl a gorffen yn cael eu sefydlu i hybu'r gwaith yn y meysydd hyn. Bydd y grwpiau gorchwyl a gorffen⁶ yn adrodd i'r Bwrdd Gofal Llygaid. Er bod y cynnydd hwn yn gadarnhaol, mae'r cynllun gweithredu gofal llygaid yn lefel uchel.

⁴ Fframwaith strwythuredig a gynlluniwyd i wella gwasanaethau gofal llygaid yng Nghymru yw llwybr WGOS (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru).

⁵ Diwygio sefydliadol, rhwydweithiau clinigol, trawsnewid llwybrau a model cyflawni cynaliadwy yw'r themâu strategol.

⁶ Mae'r grwpiau gorchwyl a gorffen fel a ganlyn: grŵp cataract offthalmoleg, grŵp cyflawni a datblygu offthalmoleg rhanbarthol, grŵp cyfeirio clinigol retina meddygol, grŵp hygyrchedd ystadau a grwpiau offthalmoleg digidol.

Mae'r amserlenni cyflawni yn aneglur, fel y mae uchelgeisiau gwasanaethau gofal llygaid hirdymor y Bwrdd Iechyd. O ystyried yr heriau gydag amseroedd aros offthalmoleg, mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd gwblhau ei gynllun gofal llygaid ar frys, y dylai'r Bwrdd ei gymeradwyo, er mwyn arwain gwelliannau hirdymor a chynaliadwy i'r gwasanaeth (**Argymhelliad 4**).

- 27 Yn y tymor byr, y galw, y capasiti a'r hyn y gellir ei gyflawni'n realistig sy'n siapio bwriadau gwasanaeth y Bwrdd Iechyd. Mae pob gwasanaeth, gan gynnwys offthalmoleg, yn cwblhau templed cynllunio blynyddol, sy'n cynnwys cynllunio galw a chapasiti lefel uchel. Mae hyn yn helpu'r Bwrdd Iechyd i ddeall pwysau cyfredol ac i gynllunio yn unol â hynny. Er enghraifft, mae'r cynllun offthalmoleg blynyddol yn cymharu gweithgareddau a gynlluniwyd a gweithgareddau gwirioneddol, megis atgyfeiriadau, apwyntiadau cleifion allanol, a derbyniadau brys, er mwyn addasu cynlluniau ar gyfer y flwyddyn ganlynol a nodi bylchau capasiti.
- 28 Mae'r dull uchod yn cefnogi'r broses o ddatblygu cynllun gofal llygaid cynaliadwy drwy ddarparu mewnwelediad cliriach i anghenion adnoddau hirdymor. Fodd bynnag, mae capasiti y gwasanaeth offthalmoleg yn bryder. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod â thair swydd wag hirsefydlog am ymgynghorwyr offthalmoleg. Yn galonogol, mae pob swydd bellach wedi eu llenwi'n llwyddiannus; fodd bynnag, ni ddisgwylir i ddau o'r ymgynghorwyr a benodwyd ddechrau eu swyddogaethau tan fis Awst 2026. Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweld gostyngiad o 30% yn ei weithlu meddygol offthalmoleg rhwng mis Mawrth 2021 a mis Mawrth 2025⁷.

Cynlluniau i wella effeithlonrwydd y gwasanaeth

Er bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau priodol i wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd ei wasanaethau gofal llygaid, nid ydynt wedi arwain at welliannau parhaus eto.

- 29 Mae'r Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Ei nod yw cynyddu'r defnydd o theatrau, cynyddu cynhyrchiant llawfeddygaeth cataract a lleihau aneffeithlonrwydd cleifion allanol. Mae hefyd yn ceisio optimeiddio swyddogaethau optometrydd drwy weithredu llwybrau WGOS ac uwchsgilio optometryddion ysbyty. Amlinellir mesurau tebyg yng Nghynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer y gwasanaeth gofal a gynlluniwyd, sy'n cynnwys offthalmoleg. Mae'r dull pragmatig hwn yn cefnogi gwasanaethau cynaliadwy drwy ddefnyddio adnoddau cyfredol cymaint â phosibl. Mae'r cynllun gweithredu gofal llygaid hefyd yn mynd i'r afael â rhwystrau ehangach, gyda ffrydiau gwaith sy'n targedu amseroedd aros, cydweithrediad rhanbarthol, datblygiad y gweithlu, gofal integredig, a thrawsnewid digidol.

⁷ Ym mis Mawrth 2021, roedd 18 o aelodau staff meddygol offthalmoleg cyfwerth ag amser llawn, o'u cymharu â 12.5 ym mis Mawrth 2025. Ffynhonnell y data: Data gweithlu meddygol Llywodraeth Cymru.

- 30 Er gwaethaf y pwyslais blaenorol a phresennol ar gynhyrchiant ac effeithlonrwydd, mae cyfleoedd sylweddol i gyflawni gwelliannau. Ar 4 Awst 2025, 80% oedd y gyfradd defnyddio theatrau ar gyfer y gwasanaeth offthalmoleg o'i chymharu â tharged y Bwrdd lechyd o 90%. Y cyfraddau cyfartalog ar gyfer dechrau'r theatr yn hwyr a gorffen yn gynnar oedd 37% a 49% yn y drefn honno. Y gyfradd canslo theatr ar fyr rybudd oedd 11.9%, i'w phriodoli i'r claf a'r ysbyty, a'r gyfradd 'Claf yn Absennol' ar gyfer cleifion allanol offthalmoleg newydd oedd 8.4%⁸.
- 31 Mae'r adroddiad gan y Grŵp Cyngori Gweinidogol ar Berfformiad a Chynhyrchiant GIG Cymru hefyd yn gwneud argymhellion i leihau amrywiad diangen mewn amseroedd aros am driniaeth ac yn mabwysiadu arferion gorau ar gyfer rheoli theatr. Mae hyn yn cynnwys argymhelliad i greu Byrddau Optimeiddio Theatrau Lleol i hybu cynhyrchiant mewn theatrau, a chyflawni'r arfer gorau o ran nifer yr achosion fesul sesiwn theatr. Ar gyfer offthalmoleg, mae hyn yn golygu deg gweithdrefn cataract mewn sesiwn theatr pedair awr, ac wyth gweithdrefn os yw'n sesiwn hyfforddi. Ar hyn o bryd, mae rhestrau llawfeddygaeth cataract y Bwrdd lechyd yn cynnwys saith i wyth o gleifion fesul rhestr. Ym mis Mehefin 2025, treialodd y gwasanaeth restr cataract â 10 o gleifion yn llwyddiannus, gyda chynllun gwella ar waith er mwyn cyflawni rhestrau â niferoedd uchel yn gyson.

Trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu

- 32 Mae trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu clir yn allweddol i gefnogi gwelliannau i'r gwasanaeth a reolir yn dda. Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd lechyd:
- atebolrwydd gweithredol a chlinigol clir ac effeithiol
 - goruchwyliaeth a gwaith craffu priodol ar lefel y Bwrdd a'r pwyllgorau
 - trefniadau priodol i gipio, rheoli a goruchwyllo risgiau gweithredol a chorfforaethol.
- 33 Canfuom fod **arweinyddiaeth gweithredol a chlinigol da i sbarduno gwelliannau tymor byr, ond nad oes digon o oruchwyliaeth gan y Bwrdd, a bod angen gwelliannau rheoli risg ar y gwasanaethau gofal llygaid.**

Arweinyddiaeth gweithredol a chlinigol

Mae gan y Bwrdd lechyd arweinyddiaeth gweithredol a chlinigol da i sbarduno gwelliannau tymor byr mewn gwasanaethau gofal llygaid

- 34 Mae gan y Bwrdd lechyd arweinyddiaeth ac atebolrwydd clir am ei wasanaethau gofal llygaid, ac mae'r Prif Swyddog Gweithredu yn goruchwyllo gofal aciwt a gofal sylfaenol. Mae tîm arweinyddiaeth triwriaeth cryf sy'n arwain y gwasanaeth

⁸Ffynhonnell ddata: Cerdyn sgorio cymhellol rhwng atgyfeirio a thriniaeth offthalmoleg Aneurin Bevan, wythnos ariannol 19. Mae'r ffigurau a ddangosir yn seiliedig ar gyfartaledd treigl 12 wythnos.

offthalmoleg yn yr adran llawfeddygaeth. Mae'r tîm yn cynnwys rheolwr cyfarwyddiaeth offthalmoleg, cyfarwyddwr clinigol a dwy uwch-nyrs offthalmoleg. Mae gan y gwasanaeth arweinyddiaeth clinigol gweithredol priodol, sy'n goruchwyllo'r llywodraethu clinigol, y perfformiad, a'r digwyddiadau, ac mae Arweinydd yr Is-adran Gofal Sylfaenol ac arweinydd proffesiynol optometreg pwrpasol sy'n goruchwyllo contractau optometreg cymunedol.

- 35 Yn gyffredinol, canfuom oruchwyliaeth gweithredol da o'r perfformiad offthalmoleg. Mae'r perfformiad yn cael ei adolygu'n rheolaidd drwy strwythur Bwrdd Rhaglen Gofal a Gynlluniwyd y Bwrdd Iechyd, cyfarfodydd sicrwydd perfformiad cyfarwyddiaeth y Prif Swyddog Gweithredu, cyfarfodydd cyfarwyddiaeth llawfeddygaeth a chyfarfodydd gwasanaeth offthalmoleg. Mae dulliau goruchwyllo yn tueddu i ganolbwyntio ar wella amseroedd aros, ac effeithlonrwydd a chynhyrchiant y gwasanaeth, sy'n ddilys ond ar y tymor byr y maent yn canolbwyntio.
- 36 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ailsefydlu ei Fwrdd Gofal Cydweithredol Llygaid a'i Weithgor Gofal Llygaid. Mae'r Gweithgor Gofal Llygaid yn gyfrifol am oruchwyllo datblygiad cynllun gofal llygaid trosfwaol y Bwrdd Iechyd. Dylai hyn wella'r pwyslais ar welliannau tymor hwy i'r gwasanaeth.

Goruchwyliaeth y Bwrdd a'r pwyllgorau

Nid yw'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn goruchwyllo'r gwasanaethau gofal llygaid yn ddigonol

- 37 Mae angen cryfhau'r oruchwyliaeth ar wasanaethau gofal llygaid ar lefel y Bwrdd. Er bod gwahanol bwyllgorau yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf, *ad hoc* ydynt yn aml neu maent yn cael eu corffori mewn adroddiadau eraill. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd deall cyfanrwydd y risgiau gwasanaeth, ansawdd a pherfformiad yn llawn. Mae offthalmoleg yn ymddangos yn yr wybodaeth ddiweddaraf am ofal a gynlluniwyd yn yr adroddiad perfformiad integredig a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd, ond nid yw'r perfformiad offthalmoleg ar wahân. Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion yn cael adroddiadau amrywiol lle sonnir am offthalmoleg, megis yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol Gofal Sylfaenol ac Adroddiad Gweithio i Wella. Dim ond y Pwyllgor Partneriaeth, Iechyd y Boblogaeth a Chynllunio sy'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn gyson sy'n canolbwyntio ar waith offthalmoleg rhanbarthol.
- 38 Cynhaliodd y Bwrdd Iechyd archwiliad offthalmoleg dwfn cynhwysfawr ym mis Mehefin 2024, ond nid yw hyn wedi ymddangos mewn unrhyw bapurau pwyllgor, ac nid oes gwybodaeth ddiweddaraf o'i chymharu ag argymhellion offthalmoleg GIRFT. O ystyried lefel y risg sy'n gysylltiedig â'r rhestr aros offthalmoleg, mae angen mwy o sicrwydd gan y Bwrdd. Pan fydd y Bwrdd wedi cymeradwyo'r cynllun gofal llygaid, dylai pwyllgor priodol gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn rheolaidd (**Argymhelliad 5**).

Trefniadau rheoli risg

Nid yw trefniadau rheoli risg yn cwmpasu risgiau gofal llygaid yn ddigonol

- 39 Yn gyffredinol, mae cofrestrau risg cyfarwyddiaeth offthalmoleg ac is-adran llawfeddygaeth y Bwrdd Iechyd yn cipio risgiau gweithredol. Mae hyn yn cynnwys materion gydag offer meddygol, cleifion allanol dilynol y mae eu dyddiadau targed wedi mynd heibio, capasiti clinig retina, materion ystadau, capasiti nyrsio offthalmig arbenigol ac anawsterau wrth recriwtio arbenigwr cornbilen. Fodd bynnag, nodwn rai bylchau sylfaenol, megis risgiau sy'n gysylltiedig â bylchau presennol yn y gweithlu offthalmolegwyr pediatriig a glawcoma a seilwaith digidol annigonol, yn enwedig mewn cysylltiad â defnyddio cofnod cleifion electronig Open Eyes. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei gofrestr risg gwasanaeth offthalmoleg i sicrhau bod yr holl risgiau yn cael eu rheoli'n ddigonol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu ei ddull rheoli risgiau corfforaethol ar hyn o bryd.
- 40 Canfu ein [hadolygiad o ofal a gynlluniwyd yn 2025](#) fod risgiau gofal a gynlluniwyd, gan gynnwys offthalmoleg, yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Rhaglen Gofal a Gynlluniwyd. Fodd bynnag, nid oes gan y Bwrdd Rhaglen Gofal a Gynlluniwyd gofrestr risgiau penodol, a gallai hyn arwain at rai risgiau neu gamau lliniaru nad ydynt yn cael eu holrhain neu eu blaenoriaethu yn effeithiol. Ar lefel y Bwrdd, mae cofrestr risg strategol y Bwrdd Iechyd yn cynnwys nifer o risgiau sy'n berthnasol i offthalmoleg, megis y rhai sy'n gysylltiedig â chynnal gwasanaethau diogel ac o ansawdd uchel, a seilwaith digidol ac ystadau sy'n annigonol. Fodd bynnag, nid oes digon o bwyslais ar y risg o niwed i gleifion mewn cysylltiad ag oediadau cyn cael triniaeth (**Argymhelliad 6**).

Perfformiad offthalmoleg

- 41 Gwnaethom ddadansoddi perfformiad a thueddiadau rhestrau aros offthalmoleg i benderfynu a yw'r Bwrdd Iechyd yn bodloni blaenoriaethau Gweinidogol ac yn cyflawni targedau cenedlaethol Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â lleihau rhestrau aros hir. Mae'r targedau fel a ganlyn:
- nid oes neb yn aros yn hwy na blwyddyn am ei apwyntiad claf allanol cyntaf erbyn diwedd 2022 (diwygiwyd y dyddiad targed i fis Rhagfyr 2023)
 - dileu nifer y bobl sy'n aros yn hwy na dwy flynedd yn y mwyafrif o'r arbenigeddau erbyn mis Mawrth 2023 (diwygiwyd y dyddiad targed i fis Mawrth 2026)
 - dileu nifer y bobl sy'n aros yn hwy na blwyddyn yn y mwyafrif o'r arbenigeddau erbyn gwanwyn 2025.
- 42 Hefyd, mae gwasanaethau offthalmoleg yn cael eu mesur gan ddefnyddio'r mesur gofal llygaid. Mae hyn yn mesur rhychwant yr oedi i'r cleifion hynny sydd â'r risg mwyaf o niwed o ganlyniad i oedi wrth ddisgwyl am driniaeth. Esbonnir y dull hwn yn **Arddangosyn 4**.


- 43 Canfuom er bod yr arosiadau hir dros ddwy flynedd am offthalmoleg wedi lleihau'n sylweddol, fod y Bwrdd lechyd yn parhau i fethu targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer y mesur gofal llygaid a chleifion sy'n aros yn hwy na blwyddyn.

Y perfformiad o'i gymharu â thargedau gofal a gynlluniwyd Llywodraeth Cymru

Er bod arosiadau offthalmoleg wedi lleihau'n sylweddol yn ystod dwy flynedd, mae'r Bwrdd lechyd wedi methu targed Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhai sy'n aros yn hwy na blwyddyn

- 44 Dengys **Arddangosyn 3** berfformiad y Bwrdd lechyd o'i gymharu â thargedau rhestr aros gofal a gynlluniwyd Llywodraeth Cymru. Ym mis Mehefin 2025, roedd gan y Bwrdd lechyd:
- 5,567 o gleifion yn aros yn hwy na blwyddyn ar y rhestr aros offthalmoleg
 - 4,842 o gleifion yn aros yn hwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cleifion allanol offthalmoleg cyntaf
 - 44 o gleifion yn aros yn hwy na dwy flynedd ar y rhestr aros offthalmoleg.
- 45 Mae'r tri mesur wedi gweld dirywiad cyffredinol ers y pandemig. Er bod rhywfaint o welliant o fis Ionawr 2025 ymlaen, mae'r gwelliannau yn cyd-ddigwydd â chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, nad yw'n rheolaidd, i fynd i'r afael ag arosiadau hir am driniaeth cataract. Mae'r Bwrdd lechyd wedi gweld cynnydd o 51% mewn atgyfeiriadau offthalmoleg rhwng mis Ebrill 2021 a mis Ebrill 2025. Bu cynnydd o oddeutu 19,000 i dros 23,000 yn y nifer cyffredinol o arosiadau rhwng atgyfeirio a thriniaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r twf hwn, ynghyd â'r tueddiadau hirdymor a nodir yn **Arddangosyn 3**, yn awgrymu bod angen i'r Bwrdd lechyd wneud llawer mwy i fynd i'r afael ag arosiadau hir, a lefel yr arosiadau cyffredinol.

Arddangosyn 3: nifer y cleifion offthalmoleg sy'n aros yn hwy na dwy flynedd a blwyddyn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan



Ffynhonnell: Amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, Llywodraeth Cymru

Perfformiad rhestr aros y mesur gofal llygaid

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi methu â chyflawni targed mesur gofal llygaid Llywodraeth Cymru yn gyson, gan fethu â chyflawni'r targed o 95% o bell

- 46 Yn ogystal â rhestr aros yr amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth, mae GIG Cymru yn adrodd arosiadau cleifion ar gyfer y rhai sydd â'r risg fwyaf o niwed oherwydd oedi. Mae **Arddangosyn 4** yn darparu esboniad sylfaenol o'r mesur hwn.

Arddangosyn 4: Cyflwyniad sylfaenol i'r mesur gofal llygaid

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y mesur gofal llygaid er mwyn helpu i flaenoriaethu'r rhai sydd â'r risg fwyaf o niwed o ganlyniad i oedi wrth ddefnyddio gwasanaethau.

Asesir risg cleifion offthalmoleg ar sail eu cyflwr, yna pennir dyddiad targed ar gyfer eu gweld. Os yw claf yn y categori risg uchaf (R1)⁹ yn aros 25% yn hwy na'r dyddiad targed a aseswyd yn glinigol, mae'n cyfrif fel toriad.

Er enghraifft: Mae gan Mrs Jones AMD gwlyb ac aseswyd yn glinigol bod angen ei gweld mewn pedair wythnos. Mae Mrs Jones yn aros ychydig yn hwy chwe wythnos – felly mae'r targed wedi ei dorri. O fewn pum wythnos, ni fyddai hyn wedi bod yn doriad. Y targed cenedlaethol yw i 95% o'r cleifion sydd ar restr aros y Mesur Gofal Llygaid gael eu gweld erbyn eu dyddiad targed neu o fewn 25% ar ôl eu dyddiad targed.


Ffynhonnell: Archwilio Cymru

- 47 Dengys **Arddangosyn 5** y perfformiad o'i gymharu â tharged mesur gofal llygaid Llywodraeth Cymru. Ers mis Gorffennaf 2023, mae perfformiad y Bwrdd Iechyd wedi gostwng yn is na chyfartaledd Cymru, ac nid yw wedi gwella. Ym mis Mehefin 2025, roedd y perfformiad yn 45% o'i gymharu â tharged cenedlaethol o 95%. Mae risg posibl uwch o niwed a cholli golwg yn barhaol i'r cleifion y nodir eu bod Ffactor eu Risg Iechyd yn R1.

⁹ Gelwir y risg uchaf yn Ffactor Risg 1 neu R1. Mae categori R1 ar gyfer cleifion yr asesir eu bod mewn perygl o niwed anwrthdroadwy neu ganlyniad andwyol iawn pe na chyflawnid eu dyddiad targed.

Arddangosyn 5: Canran y cleifion gofal llygaid a welwyd erbyn eu dyddiad targed neu o fewn 25% ar ôl eu dyddiad targed, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Y ganran o fewn y dyddiad targed



Ffynhonnell: Perfformiad y Mesur Gofal Llygaid, Llywodraeth Cymru

- 48 Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd o'i gymharu â'r mesur gofal llygaid yn dal i fod yn bryder sylweddol, sy'n golygu bod risg gwirioneddol a pharhaus y bydd cleifion yn dod i niwed y gellir ei osgoi ac yn dioddef colli golwg sy'n anwrthdroadwy.

Rheoli'r risg o niwed

- 49 Gallai cyflyrau llygaid cleifion waethygu wrth iddynt aros, gan achosi poen, gorbryder, ac effeithio ar ansawdd eu bywyd a'u gallu i weithio neu i ofalu am eraill. Mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn rheoli yn weithredol y niwed sy'n gysylltiedig ag oediadau hir ar restrau aros. Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud yr hyn a ganlyn:
- meddu ar brosesau effeithiol i gofnodi ac adrodd achosion o niwed sy'n deillio o oediadau ar y rhestr aros am ofal llygaid
 - cymryd camau priodol i reoli'r risg o niwed i gleifion, yn enwedig colli golwg.
- 50 Canfuom er bod prosesau priodol ar waith i flaenoriaethu rhestrau aros offthalmoleg ac i nodi a dysgu oddi wrtho unrhyw niwed a achosir gan oediadau, fod cyfle o hyd i gryfhau'r sicrwydd. Mae rhai cleifion wedi profi niwed, ac nid yw'r broses o adrodd ar lefel y pwyllgorau yn cipio'r digwyddiadau hyn yn gyson nac yn rhoi sicrwydd ar y modd y mae gwersi yn cael eu cymhwyso er mwyn lleihau risg yn y dyfodol.

- 51 Mae gan y Bwrdd lechyd ddulliau priodol ar waith i flaenoriaethu ei restr aros. Mae'n defnyddio offeryn haenu risg fel yr argymhella adolygiad GIRFT, er mwyn blaenoriaethu cleifion offthalmoleg ar sail angen clinigol, a chleifion R1 yw'r risg uchaf. Mae offeryn ar wahân yn cefnogi penderfyniadau gofal glawcoma, gan helpu i benderfynu a all cleifion gael eu rheoli gan optometryddion cymunedol neu a oes angen gofal ysbyty arnynt.
- 52 Clercod dilysu gyda mewnbwn clinigol sy'n dilysu rhestrau aros yn bennaf. Mae rhai o'r clercod dilysu yn gymharol newydd a darperir hyfforddiant i gefnogi'r broses o reoli'r achosion mwy cymhleth.
- 53 Mae gan y Gwasanaeth Offthalmoleg sawl proses i nodi ac adolygu niwed. Mae wedi buddsoddi mewn uwch-nyrs un pwrpas i adolygu'r niwed offthalmoleg cyfredol a hanesyddol a gofnodir ar system DATIX. Mae cyfarfodydd diogelwch cleifion rheolaidd ac adolygiadau wythnosol y Canolfan Gweithredol yn cefnogi'r broses o oruchwylio digwyddiadau difrifol y gallai rhai ohonynt sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd neu broses digwyddiadau difrifol Llywodraeth Cymru. Mae'r adolygiadau hyn yn helpu i nodi dysg, a rennir trwy fforymau megis cyfarfodydd archwilio clinigol a chyfarfodydd tîm offthalmoleg. Maent hefyd yn helpu i gywiro llwybrau cleifion ac i flaenoriaethu cleifion efallai eu bod wedi eu colli neu eu gohirio ar y rhestr aros.
- 54 Adroddodd y Bwrdd lechyd fod 10 digwyddiad mewn cysylltiad ag offthalmoleg sy'n ymwneud ag oediadau wedi eu cofnodi ar Datix rhwng mis Gorffennaf 2024 a mis Gorffennaf 2025. Mae naw ohonynt yn ymwneud ag oediadau wrth asesu cleifion ac mae un yn ymwneud ag oediadau cyn cael triniaeth. O'r rhain, dosbarthwyd dau ohonynt fel niwed isel, pump fel niwed cymedrol, a thri fel niwed difrifol. Rydym wedi gweld tystiolaeth o achosion difrifol a niwed yn cael eu hadrodd drwy adolygiadau perfformiad gweithredol, archwiliad dwfn penodol i'r gwasanaeth ac adroddiadau mesur gofal llygaid misol. Er bod trefniadau goruchwylio gweithredol o ran niwed offthalmoleg a digwyddiadau difrifol yn gadarn, prin iawn yw'r adroddiadau o niwed offthalmoleg gwirioneddol i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion neu'r sicrwydd bod gwersi yn cael eu cymhwyso er mwyn lleihau'r risg o niwed yn y dyfodol (**Argymhelliad 7**).

Atodiad 1

Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 6** yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddefnyddir yn y dulliau isod.

Elfen y dulliau archwilio	Disgrifiad
Dogfennau	Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys: • Strategaeth Offthalmoleg Rhanbarthol, dogfennaeth rheoli rhaglenni cysylltiedig ac adroddiadau cynnydd • Cynlluniau gofal llygaid lleol (offthalmoleg ac optometreg), cynlluniau cyflawni/gweithredu ac adroddiadau cynnydd • Tystiolaeth ddogfennol o gyllid Llywodraeth Cymru a ddefnyddir • Dangosfyrddau/adroddiadau perfformiad mewn cysylltiad â gwasanaethau gofal llygaid • Dogfennau yn ymwneud â threfniadau llywodraethu a goruchwyllo rhaglenni mewn cysylltiad â chyflawni cynlluniau gofal llygaid, adolygiadau o niwed a dysgu o achosion o niwed • Cynlluniau neu gynigion ar gyfer mentrau tynnu gwaith i mewn/ar gontract allanol/rhestr aros • Cofrestr(au) risg gweithredol ar gyfer gwasanaethau gofal llygaid • Dogfennau sy'n dangos gweithdrefnau, gan gynnwys cyfrifoldebau, ar gyfer asesu yn glinigol gleifion sydd ar y rhestr aros offthalmoleg
Cyfweliadau	Gwnaethom gynnal cyfweliadau â'r canlynol: • Y Prif Swyddog Gweithredu • Y Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol • Y Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio • Rheolwr y Gyfarwyddiaeth Offthalmoleg • Rheolwr Cynorthwyol y Gyfarwyddiaeth Offthalmoleg • Ymgynghorydd Offthalmoleg a Chyfarwyddwr Clinigol • Uwch-nyrs Offthalmoleg • Uwch-nyrs Offthalmoleg Interim

Elfen y dulliau archwilio	Disgrifiad
	• Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Llawfeddygaeth • Arweinydd yr Is-adran Gofal Sylfaenol • Arweinydd Offthalmoleg Gofal Sylfaenol • Llawfeddyg offthalmig ymgynghorol • Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion • Arweinydd Rhaglen Gofal Llygaid Rhanbarthol
Arsylwadau	Gwnaethom arsylwi Bwrdd Rhaglen Offthalmoleg Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru.
Dadansoddi data	Gwnaethom ddadansoddi data allweddol y gwasanaeth offthalmoleg o ran: • y perfformiad rhestr aros • atgyfeiriadau • y gweithlu meddygol • gweithgareddau ac effeithlonrwydd cleifion allanol a chleifion mewnol • canslo llawdriniaethau • derbyniadau cleifion mewnol a chleifion allanol.

Atodiad 2

Meini prawf archwilio

Y prif gwestiwn archwilio: **A oes gan y Bwrdd lechyd drefniadau effeithiol i wella'r gwasanaethau gofal llygaid?**

Cwestiynau Lefel 2	Cwestiynau Lefel 3	Meini prawf archwilio (sut mae da yn edrych)
A oes gan y Bwrdd lechyd gynlluniau realistig i wella gwasanaethau gofal llygaid ar lefel rhanbarthol a lleol?	A oes gan y Bwrdd lechyd gynllun y cytunwyd arno i wella gwasanaethau gofal llygaid, sy'n cwmpasu gwasanaethau ysbyty a chymunedol, sy'n ceisio mynd i'r afael â heriau cyfredol a thymor hwy?	- Mae gan y Bwrdd lechyd gynllun gofal llygaid clir, sydd wedi ei gymeradwyo ar lefel y Bwrdd, sy'n: - ceisio mynd i'r afael â heriau cyfredol ac yn y dyfodol gyda'r bwriad o ddatblygu gwasanaethau gofal llygaid cynaliadwy - cefnogi'r broses o gyflawni amcanion/blaenoriaethau strategol y Bwrdd lechyd ac yn gydnaws â'r uchelgeisiau a nodir mewn strategaethau/cynlluniau a deddfwriaeth genedlaethol. - Mae'r cynllun gofal llygaid yn adlewyrchu'n briodol gynlluniau rhanbarthol y mae'r Bwrdd lechyd yn buddsoddi ynddynt, sydd â'r nod o ddarparu gwasanaethau offthalmoleg cynaliadwy yn rhanbarthol.
	A yw cynllun gofal llygaid y Bwrdd lechyd yn gyflawnadwy mewn gwirionedd?	- Mae'r cynllun llygaid yn cael ei gefnogi gan/yn cynnwys cynllun cyflawni clir ac iddo gamau gweithredu a cherrig milltir clir. - Mae'r cynllun gofal llygaid yn seiliedig ar y galw am wasanaethau cyfredol a'r hyn a ragwelir yn y dyfodol. - Mae cynlluniau capasiti yn seiliedig ar lefelau cynhyrchiant sy'n uchelgeisiol ond yn realistig. - Mae'r cynllun wedi ei brisio, o leiaf, ar gyfer y tymor canolig (tair i bum mlynedd). - Mae'r cynllun yn gyflawnadwy â'r adnoddau sydd ar gael i'r Bwrdd lechyd.

Cwestiynau Lefel 2	Cwestiynau Lefel 3	Meini prawf archwilio (sut mae da yn edrych)
	A yw cynlluniau gofal llygaid y Bwrdd lechyd yn canolbwyntio'n ddigonol ar wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant ei wasanaethau?	- Mae'r Bwrdd lechyd yn targedu'n weithredol ac yn gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth gofal llygaid mewn amryw o feysydd megis lleihau achosion pan nad yw'r claf yn bresennol a chansladau mewn cleifion allanol a lleoliadau llawfeddygol, gwella cynhyrchiant llawfeddygol (yn enwedig cataractau), cynyddu gymaint â phosibl y defnydd o restrau theatr gofal llygaid, a defnyddio sylw yn ôl symptomau ac apwyntiadau dilynol ar gais y claf. - Mae cynlluniau yn cynnwys mesurau perfformiad ac effeithlonrwydd cenedlaethol a lleol, ac yn defnyddio gwaith adolygiadau GIRFT pan fo hynny'n berthnasol. - Mae'r Bwrdd lechyd yn gweithio gydag eraill yn effeithiol i sbarduno gwelliannau effeithlonrwydd ehangach. - Mae'r Bwrdd lechyd yn defnyddio systemau digidol i wella effeithlonrwydd y gwasanaethau. - Mae trefnu gwaith ar gontractau allanol wedi ei ystyried/gweithredu fel ffordd o helpu i leihau ôl-groniadau ar y rhestrau aros, a chefnogir hyn gan yr ystyriaethau angenrheidiol ynghylch gwerth am arian a diogelwch gwasanaethau.
A oes gan y Bwrdd lechyd drefniadau arweinyddiaeth priodol i sbarduno gwelliannau mewn gwasanaethau gofal llygaid a mynd i'r afael â'r rhwystrau a allai atal cynnydd?	A oes strwythurau llywodraethu ac arweinyddiaeth priodol i sbarduno'r gwelliannau angenrheidiol?	- Mae gan Reolwyr Gweithredol ac Uwch-reolwyr gyfrifoldeb clir am gyflawni cynlluniau gwella gofal llygaid. - Mae arweinyddiaeth clinigol clir ar gyfer cyflawni cynlluniau gwella gofal llygaid. - Mae tystiolaeth y goruchwylir yn weithredol y broses o gyflawni cynlluniau gwella gofal llygaid. - Mae tystiolaeth bod y Pwyllgor priodol a'r Bwrdd yn goruchwyllo ac yn craffu ar y broses o gyflawni cynlluniau gofal llygaid. - Mae risgiau yn cael eu cipio'n briodol mewn cofrestrau risg gweithredol a chorfforaethol.

Cwestiynau Lefel 2	Cwestiynau Lefel 3	Meini prawf archwilio (sut mae da yn edrych)
		Mae dulliau uwchgyfeirio ar waith pe byddai gwasanaethau yn methu â chyrraedd safonau/cyflawni targedau/cerrig milltir gofynnol.
	A yw'r Bwrdd lechyd yn nodi ac yn mynd i'r afael â'r rhwystrau i wella ei wasanaethau gofal llygaid?	- Mae gan y Bwrdd lechyd ddealltwriaeth glir o'r rhwystrau a allai ei atal rhag cyflawni ei welliannau/cynlluniau a'i fwriadau gwella gofal llygaid. - Gall y Bwrdd lechyd ddangos ei fod yn rhoi trefniadau ar waith i fynd i'r afael â'r rhwystrau a allai rwystro'r cynlluniau gwella rhag cael eu cyflawni.
	A yw'r Bwrdd lechyd yn cyflawni ei gynlluniau gwella gwasanaethau gofal llygaid yn effeithiol?	Gall y Bwrdd lechyd ddangos ei fod yn gwneud cynnydd cyffredinol da wrth weithredu cynlluniau a mentrau gofal llygaid, ac wrth gyflawni'r cerrig milltir, y targedau a'r mesurau canlyniadau a nodir yn ei gynlluniau.
A yw'r Bwrdd lechyd yn rheoli'n weithredol y risg o niwed sy'n deillio o oediadau ar y rhestr aros offthalmoleg?	A oes gan y Bwrdd lechyd ddulliau effeithiol o gofnodi ac adrodd achosion o niwed sy'n deillio o oediadau ar y rhestr aros am ofal llygaid?	- Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau priodol i nodi, cipio ac adrodd niwed sy'n gysylltiedig ag arosiadau hir am driniaeth gofal llygaid: - mae proses glir ar gyfer nodi a chipio niwed i gleifion a achosir gan oediadau cyn darparu triniaeth gofal llygaid - mae'r Bwrdd lechyd yn adrodd i'w Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch niwed gwirioneddol a achosir gan oediadau cyn darparu triniaeth gofal llygaid - mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn cael sicrwydd bod y Bwrdd lechyd yn dysgu o achosion o niwed er mwyn eu hatal yn y dyfodol.
	A yw'r Bwrdd lechyd yn cymryd camau priodol i reoli'r risg o niwed i gleifion, yn enwedig colli golwg?	- Mae gan y Bwrdd lechyd system briodol i asesu cleifion sydd ar y rhestr aros am ofal llygaid er mwyn sicrhau bod y rhai sydd â'r risg fwyaf o golli eu golwg yn cael eu trin yn gyntaf. - Mae clinigydd yn adolygu'r rhestr aros am ofal llygaid yn aml i sicrhau bod risgiau clinigol yn gyfredol ac yn cael eu blaenoriaethu'n gywir.

Cwestiynau Lefel 2	Cwestiynau Lefel 3	Meini prawf archwilio (sut mae da yn edrych)
		- Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli anghydraddoldeb iechyd posibl o ran y gallu i ddefnyddio gwasanaethau gofal llygaid. - Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymhwyso egwyddorion polisi hybu, atal a pharatoi Llywodraethau Cymru er mwyn helpu cleifion sydd ar restrau aros am ofal llygaid.

Atodiad 3

Ymateb y rheolwyr

Mae **Arddangosyn 7** isod yn nodi ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion.

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A1 Er mwyn cynyddu cyflymder yr hyn a gyflawnir, dylai partneriaid rhanbarthol gyflymu'r prosesau o wneud penderfyniadau wrth gytuno ar achosion busnes.	Bydd y Cyd-bwyllgor Rhanbarthol a fydd yn dod i fodolaeth tua diwedd 2025 yn symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau rhanbarthol ar gyfer pob rhaglen ranbarthol.	Rhagfyr 2025	Cadeirydd Bwrdd y Rhaglen Offthalmoleg Rhanbarthol
A2 Dylai partneriaid rhanbarthol ddatblygu cynllun adnoddau, er mwyn deall yn well yr ymrwymiad gweithredol a chlinigol sydd ei angen gan bob sefydliad partner i gyflawni pob cam o'r strategaeth yn realistig.	Mae'r Cynllun Rhaglen Ranbarthol ar gyfer 2025-26 yn cynnwys adolygiad o'r gweithlu rhanbarthol ynghyd ag adolygiadau o'r galw a'r capasiti parhaus ar gyfer pob is-arbenigedd.	Mawrth 2026	Cadeirydd Bwrdd y Rhaglen Offthalmoleg Rhanbarthol

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A3 Dylai partneriaid rhanbarthol gytuno ar amserlenni sy'n realistig ond yn ddigon uchelgeisiol ar gyfer tri cham Strategaeth Offthalmoleg Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru.	Mae'r Strategaeth Offthalmoleg Rhanbarthol yn rhagddyddio'r Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar gyfer Offthalmoleg. O ganlyniad, bydd y Strategaeth Rhanbarthol yn cael ei hadolygu yn rhan o gynllun y rhaglen yn 2025-26, gan neilltuo cyfnodau ac amserlenni priodol i flaenoriaethau y rhaglen.	Mawrth 2026	Cadeirydd Bwrdd y Rhaglen Offthalmoleg Rhanbarthol
A4 Dylai'r Bwrdd lechyd gwblhau datblygiad ei gynllun gofal llygaid ar frys, gan geisio mynd i'r afael â heriau presennol a heriau y dyfodol. Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y cynllun: - yn seiliedig ar y galw am wasanaethau cyfredol a'r hyn a ragwelir yn y dyfodol - yn cynnwys cynlluniau capasiti sy'n seiliedig ar lefelau cynhyrchiant sy'n uchelgeisiol ond yn realistig - wedi ei brisio, o leiaf, ar gyfer y tymor canolig (tair i bum mlynedd) - yn cael ei gefnogi gan gynlluniau adnoddau, hynny yw, ariannol, gweithlu (yn enwedig staffio meddygol) a	Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod brys a phwysigrwydd cwblhau'r Cynllun Gofal Llygaid ac mae'n gwneud cynnydd yn weithredol yn y gwaith i fodloni'r gofynion a amlinellir. Cymerir y camau canlynol i sicrhau bod y cynllun yn gadarn, yn gynaliadwy ac yn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd: 1. Cynllunio yn Seiliedig ar y Galw - Mae'r Cynllun Gofal Llygaid drafft wedi ei gwblhau. - Mae gwaith modelu capasiti offthalmoleg a'r galw am offthalmoleg yn digwydd bob blwyddyn, gan sicrhau bod data yn parhau i fod yn gyfredol wrth i gapasiti y gwasanaeth amrywio. - Datblygir y cynllun gan ddefnyddio data gweithgarwch cyfredol y gwasanaeth a chan fodelu'r galw a ragwelir, gan gynnwys nifer y triniaethau cataract a'r llwybrau cleifion allanol. - Defnyddir meincnodi rhanbarthol a deallusrwydd amrywiad cenedlaethol i lywio anghenion y gwasanaeth yn y dyfodol. 2. Capasiti a Chynhyrchiant	Ebrill 2026	Y Cyfarwyddwr Cyswllt Gofal a Gynlluniwyd

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
seilwaith, sy'n adlewyrchu modelau gwasanaeth cynaliadwy. - yn cael ei gefnogi gan gamau cyflawni clir a cherrig milltir. - yn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd.	- Mae cynlluniau capasiti yn ymgorffori targedau cynhyrchiant realistig ond uchelgeisiol, gan gynnwys gwelliannau yn y defnydd o theatrau ac mewn trwygyrch cleifion allanol. - Mae mentrau fel y broses 'claf euraidd', cynlluniau rhyngwyneb meddygon teulu yn cael eu graddio er mwyn optimeiddio effeithlonrwydd clinigol a'r gweithgaredd tynnu gwaith i mewn arfaethedig gyda HBSUK. 3. Prisio Tymor Canolig - Mae'r gwaith modelu ariannol wedi ei gwblhau ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26, ac mae costau eraill ar y gweill ar gyfer cyfnod o dair i bum mlynedd, gan gynnwys cynlluniau cynaliadwyedd ar gyfer offthalmoleg. - Cyflwynir cynlluniau cynaliadwyedd eraill drwy'r is-adran erbyn mis Mawrth 2026. 4. Cynllunio Adnoddau - Mae cynlluniau gweithlu yn cynnwys apwyntiadau a gadarnhawyd ar gyfer tri ymgynghorydd offthalmoleg (cornbilen, glawcoma, pediatreg), ac mae dyddiadau cychwyn wedi eu cynllunio ar gyfer 2026: - Bydd ymgynghorydd cornbilen yn dechrau ar 1 Medi 2025 - Mae ymgynghorydd glawcoma wedi derbyn swydd a bydd yn dechrau cymrodoriaeth ym mis Awst 2025. Disgwylir y bydd yn ei swydd ar ôl Awst 2026		

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	– Mae ymgynghorydd pediatrig wedi derbyn swydd a bydd yn dechrau cymrodoriaeth ym mis Awst 2025. Disgwylir y bydd yn ei swydd ar ôl Awst 2026 • Mae seilwaith a galluogwyr digidol (ee, E-ganiatâd, archebu ystafelloedd clinigol, disodli'r system theatrau) yn cael eu cwmpasu a'u caffael i gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau. 5. Camau Cyflawni a Cherrig Milltir • Mae pedwar Grŵp Gorchwyl a Gorffen allweddol a sefydlwyd i fonitro'r ffrydiau gwaith sy'n deillio o'r Cynllun Gofal Llygaid. • Mae'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn cwrdd bob mis, a darperir yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd i'r Bwrdd Gofal Llygaid bob chwarter. • Mae'r Gweithgor Gofal Llygaid a Bwrdd y Rhaglen wedi cytuno ar Gylch Gorchwyl ac maent yn olrhain cerrig milltir cyflawni, gan gynnwys ailgynllunio llwybrau a phrotocolau ar gyfer rhyddhau cleifion. • Mae cyfarfodydd y Bwrdd Rhaglen Gofal a Gynlluniwyd misol yn goruchwyllo'r cynnydd ac yn uwchgyfeirio risgiau yn ôl yr angen. Llywodraethu ac Amserlenni Bydd y Cynllun Gofal Llygaid drafft wedi ei gwblhau yn cael ei fireinio ymhellach a'i gyflwyno i gael cymeradwyaeth ffurfiol gan y Bwrdd erbyn mis Ebrill 2026.		

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A5 Ar ôl i'r cynllun gofal llygaid gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd, dylai pwyllgor priodol gael yr wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni'r cynllun o leiaf ddwywaith y flwyddyn, gan nodi'n glir unrhyw risgiau i gyflawni.	Mae'r Cynllun Gofal Llygaid wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd Gofal Llygaid bellach, sy'n cyfarfod bob deufis i adolygu'r cynnydd o'i gymharu â'r ffrydiau gwaith allweddol. Trafodir yr wybodaeth ddiweddaraf am y perfformiad, y risgiau a'r camau lliniaru yn rheolaidd drwy'r fforwm hwn, gan sicrhau bod goruchwyliaeth barhaus a chysondeb â disgwyliadau llywodraethu y Bwrdd. Ar ôl i'r Bwrdd gymeradwyo'r Cynllun Gofal Llygaid, bydd y Bwrdd lechyd yn sicrhau bod y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a gyflawnir o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf hon yn mynegi'n glir y cynnydd, y risgiau i gyflawni, ac unrhyw gamau lliniaru sy'n cefnogi tryloywder ac atebolrwydd. Sicrheir hyn drwy ychwanegu'r Cynllun Gofal Llygaid at Flaenraglen Waith y Pwyllgor.	Ebrill 2026	Y Cyfarwyddwr Cyswllt Gofal a Gynlluniwyd / Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
A6 Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu ei gofrestrau risg gweithredol a strategol er mwyn sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal llygaid yn cael eu cipio a'u rheoli'n briodol.	Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod yr argymhelliad ac mae wedi ymrwymo i sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal llygaid yn cael eu cipio a'u rheoli'n briodol yn ei fframwaith llywodraethu sefydledig. Mae risgiau offthalmoleg yn cael eu rheoli drwy Fframwaith Rheoli Risg y Bwrdd lechyd er mwyn cefnogi'r nod o ddarparu gwasanaethau diogel, cynaliadwy ac o ansawdd uchel. Ar y lefel weithredol, mae risgiau is-adrannol – gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig ag arosiadau hir, prinder gweithlu, a phwysau gwasanaeth – yn cael eu monitro'n weithredol a'u hadolygu drwy strwythurau	Rhagfyr 2025	Y Cyfarwyddwr Cyswllt Gofal a Gynlluniwyd

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	Ilywodraethu y gyfarwyddiaeth ac is-adrannol er mwyn sicrhau camau lliniaru amserol a goruchwyliaeth yn ôl yr angen. Ar y lefel strategol, nid oes unrhyw risgiau offthalmoleg ar wahanol a gofnodir ar y cofrestrau risg corfforaethol neu strategol ar hyn o bryd. Adlewyrchir materion perthnasol yn y risgiau strategol ehangach, megis recriwtio a chadw staff ar draws arbenigeddau, digonolrwydd y gwaith cynllunio strategol, a chyflawni targedau rhestrau aros am ofal a gynlluniwyd, sy'n cwmpasu offthalmoleg ar y cyd. Derbynnir cyfrifoldeb am risgiau arbenigol, gan eu rheoli, ar lefel y gyfarwyddiaeth ac is-adrannol, gan eu hasesu o'u cymharu â pharodrwydd y Bwrdd Iechyd i dderbyn risg, a'i oddefgarwch. Adolygir y sefyllfa hon yn gyson, gan ei huwchgyfeirio at risg offthalmoleg corfforaethol os bodlonir y trothwyon. Cynhelir goruchwyliaeth drwy adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Gofal Llygaid a thrwy gyfarfodydd Sicrwydd y Gyfarwyddiaeth ac Is-adrannol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau sicrwydd ymhellach drwy: • Sicrhau bod risgiau offthalmoleg yn cael eu cipio a'u diweddarau yn y cofrestrau risg perthnasol. • Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni'r Cynllun Gofal Llygaid yn rheolaidd i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, gan fynegi risgiau a chamau lliniaru yn glir. • Defnyddio dysg o adolygiadau niwed ac arfer gorau i lywio adolygiad o'r cleifion sydd ag amseroedd aros hir, dan oruchwyliaeth y Bwrdd Gofal a Gynlluniwyd.		

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A7 Dylai'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion gael sicrwydd ynghylch: • sut mae cleifion ar y rhestr aros offthalmoleg yn cael eu rheoli er mwyn atal niwed • gwersi a ddysgwyd o adolygiadau gwirioneddol a sut mae gwersi wedi eu cymhwyso er mwyn cryfhau'r trefniadau • niwed gwirioneddol a achosir gan oediadau wrth aros am offthalmoleg.	Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod yr argymhelliad ac yn cydnabod yr angen i gryfhau sicrwydd o ran diogelwch cleifion offthalmoleg a rheoli rhestrau aros. Mae'r Bwrdd lechyd wedi ymrwmo i sicrhau bod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion yn cael sicrwydd clir ar atal niwed, gwersi a ddysgwyd, ac unrhyw niwed gwirioneddol sy'n deillio o oediadau wrth aros am offthalmoleg. Mae pob digwyddiad diogelwch cleifion mewn Offthalmoleg yn cael eu hasesu drwy Datix er mwyn penderfynu ar y risg a'r camau sydd eu hangen. Mae unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain at niwed cymedrol neu waeth yn sbarduno adolygiad niwed ffurfiol, sy'n cynnwys llinell amser manwl mewn cysylltiad â'r claf a asesir gan ddefnyddio meini prawf niwed sy'n benodol i offthalmoleg. Mae'r Tîm Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn cydlynu adolygiadau niwed cyflym ac yn eu huwchgyfeirio at y Sgrym Diogelwch Gweithredol wythnosol, gan sicrhau goruchwyliaeth amserol a dysg a rennir ar draws y Bwrdd lechyd. Mae gwersi a nodir o adolygiadau niwed yn cael eu trosi yn gynlluniau gweithredu ar lefel y gwasanaeth, a'u rhannu ar draws y tîm clinigol ehangach. Adroddir canfyddiadau thematig a chanlyniadau dysgu drwy lywodraethu Rhanbarthol, a byddant yn ffurfio rhan o'r adroddiadau sicrwydd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion. Trwy'r adroddiadau hyn, bydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion yn cael sicrwydd ar: Eir i'r afael â rhestr aros ar gyfer apwyntiadau Offthalmoleg cychwynnol ar hyn o bryd drwy weithgaredd tynnu gwaith i mewn HBSUK, gyda'r nod o leihau'r ôl-groniad yn sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae arwyddion cynnar yn dangos bod nifer da o gleifion yn cael eu	Hydref 2026	Cyfarwyddwr Clinigol Offthalmoleg

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	rhyddhau i lwybrau gofal eraill, a gwneir ymdrechion i dargedu pob maes gofal llygaid, gan nodi bod cataractau yn cael eu symud ymlaen yn rhan o'r ateb rhanbarthol. Hefyd, mae menter Apwyntiad Dilynol ar Gais y Claf ar waith fel model gofal cleifion allanol hyblyg. Mae hyn yn caniatáu i gleifion cymwys drefnu eu hapwyntiadau ysbyty eu hunain pan fydd eu symptomau'n gwaethygu, yn hytrach na dibynnu ar amserlennu arferol. Ar y cyd, mae'r gweithgareddau hyn yn rhan o strategaeth ehangach i leihau'r niwed a achosir gan oediadau mewn gofal a gwella canlyniadau cleifion. Gwersi a ddysgwyd o adolygiadau niwed a sut maent wedi eu cymhwyso, drwy grynodedau o adolygiadau a gwblhawyd, camau canlyniadol, a dysgu thematig. Unrhyw niwed gwirioneddol sy'n deillio o oediadau wrth aros am offthalmoleg, drwy ddata agregedig a lefel achos o Datix, adolygiadau niwed cyflym, ac ymchwiliadau ffurfiol a gydlynir gan y tîm Ansawdd a Diogelwch Cleifion ac a adroddir trwy'r llwybr llywodraethu sefydledig. Er bod gwaith monitro ac adrodd niwed yn parhau i fod yn ôl-weithredol yn bennaf gan ddefnyddio llawer o adnoddau, mae'r broses hon yn darparu sicrwydd cadarn o'r oruchwyliaeth, yr hyn a ddysgir a'r gwelliant parhaus. Bydd camau gweithredu blaengar, gan gynnwys adolygiad pwrpasol o'r cleifion sydd ag amseroedd aros hir (sy'n cwmpasu'r amser rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, ac Apwyntiadau Dilynol), yn llywio sicrwydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion ymhellach ac yn cryfhau trefniadau llywodraethu ynghylch risgiau y rhestr aros am offthalmoleg.		



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.